Cyngor Optegol Cyffredinol

# RHEOLAU FFIOEDD COFRESTRU 2025-2026

Gyda phob cais sy'n dod o fewn categori a nodir yn y tabl isod, rhaid talu'r ffi a ddangosir ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026:

| **Ceisiadau i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol** | **Ffi 25/26** |
| --- | --- |
| Ffi adnewyddu flynyddol<br><br>Cais i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol yn y gofrestr o:<br><br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau<br><br>am y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026 a dderbynnir ar 31 Mawrth 2025 neu cyn hynny | £415 |
| Ffi adnewyddu flynyddol i enillwyr incwm isel[1]<br><br>Cais i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol yn y gofrestr o:<br><br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br><br>am y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026, ceisiadau a dderbynnir ar 31 Mawrth 2025 neu cyn hynny | £290 |
| Cais am adnewyddiad blynyddol yn y gofrestr o fyfyrwyr-optometryddion neu'r gofrestr o fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Medi 2025 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2026 a dderbynnir ar 31 Awst 2025, neu cyn hynny | £30 |

| **Ceisiadau i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol wrth fynd i'r gofrestr, trosglwyddo neu gael eu hadfer iddi** | **Ffi 25/26** |
| --- | --- |
| Ffi adnewyddu flynyddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026, cyfradd pro rata yn seiliedig ar ddyddiad mynediad i'r gofrestr o:<br><br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau | £103.75 y chwarter neu ran ohono |

1 diffinnir enillydd incwm isel fel unigolyn sydd wedi cymhwyso'n llawn sy'n ymgeisydd neu wedi'i gofrestru yr amcangyfrifir bod cyfanswm ei incwm unigol yn is na £16,000 ar gyfer y flwyddyn ganlynol 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026.

| **Ceisiadau am Gofrestru** | **Ffi 25/26** |
| --- | --- |
| Cais cyntaf am gofrestriad ar y gofrestr o:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau<br>gan gynnwys enillwyr incwm isel. | £80 |
| Cais i gofrestru yn y gofrestr o fyfyrwyr-optometryddion neu'r gofrestr o fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi ar gyfer y cyfan neu ran o'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Medi 2025 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2026. Ni chodir ffi adnewyddu flynyddol am y flwyddyn pryd y maent yn gwneud cais i gofrestru. | £30 |
| Cais am gofnodi arbenigedd yn y gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. | £45 |

| **Ceisiadau i drosglwyddo cofrestriad** | **Ffi 25/26** |
| --- | --- |
| Cais i drosglwyddo rhwng cofrestri llawn ar gyfer y flwyddyn gyfan neu ran ohoni sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026. | £45 |
| Cais i drosglwyddo o'r gofrestr o fyfyrwyr-optometryddion i'r gofrestr o optometryddion neu o'r gofrestr o fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi ar ôl cwblhau llwybr at gofrestru sydd wedi'i achredu gan y Cyngor Optegol Cyffredinol. | £45 |

| **Ceisiadau i adfer cofrestriad** | **Ffi 25/26** |
| --- | --- |
| Cais cyntaf am adfer cofrestriad ar y gofrestr o:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau gan gynnwys enillwyr incwm isel | £80 |
| Cais am adfer cofrestriad yn y gofrestr o fyfyrwyr-optometryddion neu'r gofrestr o fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi yn dilyn dileu neu dynnu enw oddi ar y cofrestri ar gyfer y cyfan neu ran o'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Medi 2025 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2026. Ni chodir ffi adnewyddu flynyddol am y flwyddyn pryd y maent yn gwneud cais i gofrestru. | £30 |

| Ceisiadau am Dystysgrifau Statws Proffesiynol Cyfredol | Ffi 25/26 |
|---|---|
| Cais am dystysgrif statws proffesiynol cyfredol. | £30 |

| Ceisiadau am asesu cymwysterau a enillwyd o'r tu allan i'r DU i gael mynediad i'r gofrestr o optegwyr cyflenwi neu optometryddion | Ffi 25/26 |
|---|---|
| Ffi craffu ar gyfer prosesu dogfennau ar gyfer ceisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac sy'n dymuno ymuno naill ai â'r gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. Codir ffi ar wahân am bob cofrestr y gwneir cais amdani. | £130 |
| Ar gyfer y rhai sydd wedi pasio'r cam craffu ac sydd angen asesiad cyfwerthedd, codir ffi am y canlynol:<br><br>Asesiad o gyfwerthedd cymwysterau a phrofiad ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac sy'n dymuno ymuno naill ai â'r gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. Codir ffi ar wahân am bob cofrestr y gwneir cais amdani. | £455 |
| Ffi cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (dyma gost cyfweliad dros y ffôn rhwng yr ymgeisydd ac aseswyr y Cyngor Optegol Cyffredinol) | £205 |

Dr Anne Wright CBE

Cadeirydd y Cyngor

Leonie Milliner

Cofrestrydd